# Adran Amgylchedd

**Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y prif feysydd canlynol:**

- **Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu**
- **Gwarchod y Cyhoedd**
- **Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella ganlynol:

- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd - (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd - (Blaenoriaeth Gwella 8)
- Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi (Blaenoriaeth Gwella 4)

Nodir hefyd fod yr Adran yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gwella 1, **Twristiaeth - llunio cynllun twristiaeth gynaliadwy** (Adran Economi a Chymuned) a bod yr Adran Amgylchedd yn arwain ar brosiect i wella rheolaeth ar gartrefi modur. Bydd hyn yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi lle'n bosib yn ogystal â datblygu cynllun peilot i ddarparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos, ar gyfer Gwynedd i gynnwys hyd at 6 safle gyda'r cyntaf mewn lle cyn diwedd Mawrth 2023. Bydd y gwaith yma'n rhan o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy.

Yn naturiol, cafodd argyfwng Covid-19 a'r cyfyngiadau a ddaeth gydag o effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran, gyda nifer e.e. ein gwasanaethau **Gwarchod y Cyhoedd** yn cyflawni gwaith tra gwahanol i'r arfer, a hynny o dan bwysau. Mae gennym wasanaeth gwbl newydd, y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**, hefyd ers Mehefin 2020 ac rydym wedi gorfod dod o hyd i atebion gwahanol i sicrhau ein bod yn medru parhau i ddarparu gwasanaethau eraill. Gwelwyd yr effaith yma ar rediad arferol yr adran ac ar ein blaenoriaethau'n parhau'n ystod 2021/22 ac er ein bod wedi gallu sefydlogi rhywfaint ar rai gwasanaethau, mae'r her o adfer a diffyg capasiti yn parhau i'n hwynebu ni wrth i ni gamu mewn i 2022/23. Byddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi codi o'r argyfwng wrth ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol.

## Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

**Mae ein Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'n cynnwys ein Gwasanaeth Cynllunio, ein Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn) a'n Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.**

Pwrpas y **Gwasanaeth Cynllunio** yw hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i ddatblygu tir, yn ogystal â chynghori ar unrhyw ymholiadau fydd yn cael eu hanfon cyn cyflwyno cais. Maent hefyd yn cymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio ac yn delio a phob math o ddatblygiadau megis tai (yn cynnwys tai fforddiadwy), ysgolion newydd, ffatrïoedd a datblygiadau isadeiledd sylweddol megis cynlluniau gan y Grid Cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn archwilio achosion o dorri rheolaeth cynllunio ac yn gorfodi pan fod cyfiawnhad gwneud hynny.

Mae cyfnodau o salwch hir dymor dros y deunaw mis diwethaf wedi amlygu diffyg gwydnwch yn y Gwasanaeth sydd wedi cael effaith ar pa mor gyflym mae ceisiadau'n cael eu penderfynu ac achosion gorfodaeth yn cael eu datrys, ac felly ar berfformiad y Gwasanaeth.

Mae ein **Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd** â Chyngor Sir Ynys Môn yn paratoi dogfennau polisi cynllunio, yn cynnwys paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac sy'n cynnwys mapiau a pholisïau ysgrifenedig a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio. Law yn llaw â'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am baratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w mabwysiadu. Mae'r canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisïau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun Datblygu i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau i'r dyfodol. Rhoddir hefyd arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn ystod 2021/22 cyflwynwyd Adroddiadau Monitro Blynyddol (Cynllun Datblygu Lleol) ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i Lywodraeth Cymru. Ers cychwyn Awst 2021 mae'r broses statudol o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cychwyn, gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Adolygu sydd yn dod i'r casgliad fod angen adolygiad ffurf llawn, sydd gyfystyr a pharatoi cynllun o'r newydd.

Yn sgil Deddfwriaeth fydd yn dod i rym yn 2021 i greu Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru (a'r rhanbarthau eraill), bydd gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyfrannu tuag at y costau o greu Uned Newydd fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gyda hyn ar adeg lle bydd y Gwasanaeth angen bod yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig neu Newydd. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau cynllunio eraill, gydag adroddiad ac argymhellion ar gyfer darparu Cynllun Datblygu Strategol wedi eu cyflwyno i Brif Weithredwyr Gogledd Cymru yn 2021/22.

Pwrpas y **Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu** yw sicrhau bod gwaith adeiladu'n cael ei gyflawni'n unol â gofynion Rheoliadau Adeiladu er mwyn cadw pobl yn ddiogel wrth wella cadwraeth tanwydd a phŵer, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn sicrhau bod mynediad a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pobl anabl mewn adeiladau newydd ac fel rhan o addasiadau, a gweithredu gwasanaeth sydd ar gael 24 awr i ymateb i adeiladau peryglus.

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd o'r Gwasanaeth, amlygwyd bod y gwaith oedd yn ennill ffioedd (ceisiadau Rheolaeth Adeiladu) yn cael ei flaenoriaethu dros y gwaith oedd yn ddim yn ennill ffioedd, megis gwaith gorfodi'r rheoliadau pan fod cyfiawnhad gwneud hynny. Ers trosglwyddo i'r Adran ym mis Ebrill 2020 mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio'n agos gyda Gwasanaethau eraill yr Adran (a'r Cyngor) - i ymateb i broblemau sydd yn gysylltiedig ag eiddo gwag / blêr ar ben y gwaith o ddelio gydag adeiladau peryglus. Mae'r dull o gyllido'r Gwasanaeth wedi ei adolygu yn 2021/22 er mwyn ceisio cael rhaniad mwy cywir i adlewyrchu'r gwaith sydd ddim yn denu ffioedd, sef y gwaith gorfodaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn un masnachol sydd yn cystadlu am waith gydag Archwilwyr Cymeradwy (sector breifat) ond maent hefyd yn cystadlu am staff, gyda'r Gwasanaeth yn colli dau swyddog yn ystod 2021/22 ac yn methu recriwtio. Yn dilyn 'Adolygiadau Diogelwch Adeiladu' yn sgil trychineb Grenfell gan Lywodraeth y DU a Chymru, bydd newidiadau deddfwriaethol i'r Ddeddf Adeiladu yn 2023 lle bydd gofynion cyfreithiol o ran cymwyseddau ar gyfer gwneud y gwaith. Yn sgil hyn mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r strwythur fydd yn cynllunio ar gyfer y gofynion cymwyseddau fydd yn dod i rym ac yn weithredol 2022/23.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cryfhau gwydnwch yn y Gwasanaeth Cynllunio i ddelio gyda cheisiadau cynllunio'n gynt ac i ddatrys mwy achosion gorfodaeth.
- Paratoi Cynllun Cyflawni fydd yn cychwyn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a chychwyn hel sail tystiolaeth.
- Sefydlu trefniadau ar gyfer adnabod swmp gwaith gorfodaeth Rheolaeth Adeiladu ac adnabod dangosyddion perfformiad ar gyfer hyn.
- Gweithredu'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ar sail cyllideb sydd yn cynnwys mwy o waith gorfodaeth, a gyda strwythur staffio sydd fydd yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Adeiladu newydd.

# Gwarchod y Cyhoedd

**Mae ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn gwarchod ein trigolion ac ymwelwyr mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.**

Mae hyn yn cynnwys:

- Rheoli llygredd sylweddau neu sŵn mewn aer, tir neu ddyfroedd ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.
- Asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat a gorfodi gwelliannau'n ôl yr angen.
- Monitro prosesau diwydiannol ar amrywiol safleoedd a rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).
- Trwyddedu amrywiol feysydd (e.e. alcohol, gamblo, sefydliadau anifeiliaid, cerbydau a gyrwyr tacsis) er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag effeithiau andwyol; eto gan gymryd camau gorfodaeth os oes angen.

- Sicrhau bod bwyd a diod i'w werthu sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yng Ngwynedd yn rhydd o beryglon iechyd ac yn cydymffurfio â safonau priodol.
- Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â mannau gwaith.
- Gwarchod y cyhoedd rhag afiechydon heintus a chemegion niweidiol.
- Cynorthwyo busnesau Gwynedd i gwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt mewn perthynas â bwyd a diogelwch.
- Gorfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth safonau masnach yn ymwneud â chyflenwi a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau ac ymdrin ag amryw o bynciau megis diogelwch nwyddau, codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon, e-fasnach ac ymchwiliadau rhyngrwyd, iechyd a lles anifeiliaid a mwy.

Yn 2020/21 a 21/22 , o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19, bu i'r gwasanaethau yma ganolbwyntio ar :

- Atal lledaeniad Covid-19.
- Delio gyda materion risg uchel.
- Er yn parhau i wneud gwaith atal Covid-19, ail gydio yn y gwaith rhagweithiol megis yn bennaf y rhaglenni archwiliadau gan gynnwys archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, i gynnwys delio gyda'r ôl-groniad o archwiliadau.
- Y gwaith trwyddedu, rheolaeth llygredd a safonau masnach sydd rhaid gwneud rheolaeth llygredd a safonau masnach dydd i ddydd.

Rydym hefyd yn gyfrifol am y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)** ers mis Mehefin 2020. Prif amcan y gwasanaeth yma yw lleihau lledaeniad Covid-19 ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi eu heintio i ynysu yn y modd priodol. Mae hyn yn cynnwys adnabod y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achosion positif o Covid-19, cefnogi pobl â symptomau i gael mynediad at brawf a gweithio a phartneriaid arbenigol er mwyn rheoli unrhyw risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill ar draws Gymru; mae hyn yn ein caniatáu i fod mwy gwydn ledled Cymru a gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Mae'r gofynion ar y gwasanaeth yma dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn sylweddol iawn wrth i gyfyngiadau lacio gan arwain at gynnydd mewn achosion a chynnydd yn y nifer cyfartalog o gysylltiadau sydd i bob achos positif, yn enwedig ymysg plant oedran ysgol. Mae'r llwyth gwaith wedi bod yn fwy nac erioed ond mae recriwtio a chadw staff yn anodd o ganlyniad i natur y gwaith a hyd y gytundeb. Yn ogystal, mae'r angen i ymateb yn gyflym yn dilyn cyhoeddi canllawiau newydd yn heriol ac yn ddibynnol ar fedru ail-hyfforddi staff yn gyson.

Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwasanaeth yma hyd at Fehefin 2022, ond ar hyn o bryd does dim arweiniad pellach am yr hyn fydd yn digwydd y tu hwnt i hynny.

Mae'r Adran wedi cynnal adolygiad o strwythurau staffio yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021-22, gan fod ymdrin â Covid-19 a cheisio gwneud gwaith dydd i ddydd wedi amlygu diffyg gwydnwch yn sgil y toriadau sydd wedi eu gweithredu gan y Cyngor dros y 10 mlynedd diwethaf. Y bwriad yw cyflwyno strwythurau newydd sydd yn cwrdd â gofynion y Gwasanaethau yn Ebrill 2022.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cyflwyno strwythurau fydd yn rhoi gwydnwch hir dymor i'r Gwasanaethau.
- Parhau i ail gydion gyda'r rhaglenni o archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, archwiliadau ac ymgyrchoedd diogelwch cynnyrch, masnachu teg, iechyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid, cyflenwadau dwr preifat a phrosesau diwydiannol.
- Ceisio arweiniad gan Llywodraeth Cymru ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig mewn perthynas â'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu y tu hwnt i Fehefin 2022, gan weithio tuag at ddull digidol o gynnal y gwasanaeth yma (lle mae gofyn i bobl gwblhau eu ffurflen olrhain ar-lein yn hytrach na dros y ffon) er mwyn lleihau pwysau ar ein gwasanaethau.
- Lle fo amgylchiadau yn caniatáu, dargyfeirio adnoddau oedd wedi ei neilltuo yn gyfan gwbl at waith Covid-19 yn ôl at waith iechyd cyhoeddus 'arferol' gan nodi hefyd y bydd gorfodi gofynion Covid-19 mewn busnesau yn debygol o barhau.

## Trafnidiaeth a Chefn Gwlad



Mae ein **Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad** yn cwmpasu'n gwaith mewn nifer o feysydd, yn cynnwys parcio a gofal stryd, traffig a phrosiectau, cludiant integredig, diogelwch y ffyrdd, a mynediad a rheolaeth cefn gwlad. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel a dirwystr i ddefnyddwyr, gan gynnwys sicrhau nad oes rhwystrau diangen i'r defnydd o briffyrdd yn sgil gweithgareddau a digwyddiadau.
- Cyflawni prosiectau'n ymwneud â diogelwch y ffyrdd, gwella'r rhwydwaith a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn modd cost effeithio, amserol a diogel.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd sy'n effeithio ar ein rhwydwaith ffyrdd wedi eu dylunio a'u gweithredu'n ddiogel.
- Darparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio a hyrwyddo teithio llesol.
- Gorfodi cyfyngiadau parcio ar ac oddi ar ein strydoedd a chynnal ein meysydd parcio mewn modd diogel.
- Trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau ar ein ffyrdd a gorfodi perchnogion eiddo i gael gwared ar rwystrau oddi ar y ffordd ac ati.
- Darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol i drigolion Gwynedd, yn cynnwys cludiant cyhoeddus, cludo dysgwyr i sefydliadau addysgol, cludiant cymunedol a chludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.
- Paratoi contractau cludiant cyhoeddus ac amserlenni gweithredu ar gyfer gwahanol lwybrau er mwyn hwyluso, gyda'r ffaith nad yw dros hanner y llwybrau yng Ngwynedd yn fasnachol-hyfyw ac felly'n ddibynnol ar gymorth ariannol i'w rhedeg.
- Ceisio lleihau anafiadau a damweiniau ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau addysgol, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd e.e. cynnig hyfforddiant beicio a chroesi ffyrdd yn ddiogel mewn ysgolion, hyfforddiant penodol i bobl ifanc ar ein ffyrdd neu i bobl hŷn sy'n parhau i yrru, a hyfforddiant ar amrywiol feysydd megis goryrru, gwisgo gwregys a gosod seddau babis yn ddiogel.

- Gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd drwy flaenoriaethu cynnal y llwybrau hynny sy'n darparu cyfleoedd hamdden a theithio llesol o fewn cyrraedd i gymunedau. Rydym hefyd yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddaru mapiau rhwydwaith hawliau tramwy'r sir.
- Cynnal a datblygu'r Llwybr Arfordir cenedlaethol sy'n ymestyn oddeutu 300km o fewn i Wynedd.
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswydd i warchod ein bioamrywiaeth drwy ddarparu cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio, datblygiadau ac ymholiadau.
- Cyd-gordio'r gwaith o reoli Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, yn ogystal â gwarchod a cheisio rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE)

Ffurfiwyd **Grŵp Tasg Parcio** yn 2019 er mwyn cynnal adolygiad o strategaeth parcio bresennol y Cyngor gan fod llawer iawn wedi newid ers i'r Cyngor gynnal yr adolygiad diwethaf yn 2015. Yn deillio o'r adolygiad, mae'r strwythur ffioedd newydd nawr yn weithredol ac mae Aelodau Cabinet y Cyngor wedi awdurdodi'r Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er mwyn darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi'r lleoliadau; ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r hawliau angenrheidiol.

Mae'r **Rhaglen Gwella Bws** yn anelu i wneud gwelliannau ehangach i'r rhwydwaith ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith. Y nod yw sefydlogi'r rhwydwaith, cynyddu'r nifer o deithwyr gan ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau i annog newid moddol ac ymddygiad teithio. Rydym ar hyn o bryd mewn trafodaeth gyda Thrafnidiaeth i Gymru er mwyn sefydlu'r rhwydwaith newydd yma a gobeithiwn fedru dechrau gweithredu rhannau ohono yn fuan yn 2022/23.

Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid gan y Llywodraeth i brynu 6 bws trydan a fydd yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog - Porthmadog - Caernarfon o Ebrill 2022 ymlaen, ac mae bwriad gennym hefyd i brynu bws trydan llai er mwyn teithio o amgylch pentrefi yn Ffestiniog. Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniad y Llywodraeth i fysiau cyhoeddus a thacsis fod yn garbon niwtral erbyn 2028.

Yn dilyn pryderon am ddiogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes a rhai o'r ysgolion yng Nghaernarfon, mae cynlluniau ar y gweill i wella diogelwch ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Huw Owen a Chanolfan Byw'n Iach Arfon. Bydd y cynllun yma'n cynnwys mesurau i dawelu traffig, estyniad i faes parcio, darpariaeth i dacsis a llwybr troed newydd. Ym Mhenygroes, mae adroddiad dichonoldeb wedi'i gyflawni sy'n canolbwyntio ar sefyllfa draffig ger Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Dyffryn Nantlle. Mae bidiau am gyllid cyfalaf wedi eu cyflwyno er mwyn cyflawni'r holl welliannau hyn.

**Nodir y bydd creu'r Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer Gogledd Cymru hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau trafnidiaeth gan y bydd un o ddyletswyddau'r CJC yn ymwneud a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Bydd disgwyl i'r Cyngor fod yn cyfrannu tuag at y costau o greu uned newydd a fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.**

Mewn perthynas â'n gwaith bioamrywiaeth, mae argaeledd grantiau drwy'r **Bartneriaeth Natur Leol** wedi'n galluogi i gefnogi ac ysgogi gwaith sy'n gwella natur yn lleol ar draws y sir. Ar gyfer 2022/23:

- Rhagwelir bydd cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru tuag at waith y Bartneriaeth Natur Leol a rhaglen Llefydd Lleol i Natur yn parhau ac, yn amodol ar gadarnhad o'r cyllid, bydd posib parhau i gefnogi grwpiau lleol yn ardaloedd Caernarfon, Porthmadog a Bangor wneud gwaith sy'n cynnal a gwarchod bioamrywiaeth. Bydd adnoddau hefyd yn cael eu clustnodi tuag at reolaeth a gwaith diogelwch a'r rai o goedlannau a gwarchodfeydd yr Adran, megis Coed Nyrseri, Tremadog, Coed Doctor Llanberis a Pharc y Borth , Borth y Gest.
- Bydd dulliau newydd o reoli tiroedd y Lonydd Glas yn cael eu treialu gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth blodau gwyllt cyfochrog a'r llwybrau.

Mae rhaglen grant i wella mynediad wedi caniatáu gwelliannau i lwybrau ar draws y sir a chafodd y gwelliannau a gwaith diogelwch coed ar Lon Eifion eu cwblhau, ond gohiriwyd y gwaith i ledu rhan o Lon Las Menai am resymau amgylcheddol. Mae'r gwaith wedi ei rhaglennu ar gyfer misoedd cyntaf 2022. Mae rhaglen grant Gwella Mynediad, Llywodraeth Cymru wedi galluogi nifer o welliannau i lwybrau poblogaidd ac adnabyddus ar draws y Sir gan gynnwys Y Lon Goed, Llanystumdwy a llwybr aml ddefnydd o amgylch Llyn Trawsfynydd. Yn amodol ar argaeledd y grant bydd gwelliannau pellach yn cael ei gweithredu yn ystod 2022 / 23.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ar gyfer 2022/23 yw:

- Cynnal prosiect peilot ar gyfer darparu cyfleusterau dros nos i gartrefi modur mewn 6 safle parcio yng Ngwynedd.
- Mewn ymateb i'r her newid hinsawdd a thargedau lleihau carbon y Cyngor cychwynnir ar waith i adnabod a mesur gwerth tiroedd y Cyngor ar gyfer amsugno carbon. Bydd y maes gwaith yn rhoi pwyslais ar goetiroedd a sut gellir eu rheoli'n well ynghyd ag adnabod cyfleodd i'w ymestyn neu greu coetiroedd newydd.

Eleni, rydym wedi clustnodi £25K ar gyfer datblygu'r cynllun o adeiladu Llwybr Beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi. Fel rhan o'r gwaith mi fydd angen i'r gwasanaeth prynu tir wrth ymyl y ffordd ac mae trafodaethau gyda thirfeddiannwr wedi bod yn anodd o ganlyniad i'r cyfyngiadau pellter cymdeithasol.

Yn 2022/23, ein bwriad i'w i gynnal cyfarfod gyda Chynghorwyr yr ardal i roi diweddariad iddynt ar le rydym ni wedi cyrraedd, beth yw'r rhwystrau sydd gennym a sut rydym yn meddwl symud y cynllun canlynol yn ei flaen.

Mae negodi a chytuno ar gytundeb i greu hawliau mynediad newydd neu newid statws rhai presennol yn broses sy'n gallu cymryd amser ac yn 21/ 22 gwelwyd llwyddiant i sicrhau cytundeb i greu cymal o'r llwybr arfordir rhwng Tal y bont a Phorth Penrhyn, rhagwelir bydd y llwybr ar agor yn ystod 2022. Mae trafodaeth yn parhau i sicrhau llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog.

Dros y blynyddoedd diweddar mae rhannau o'r Llwybr Arfordir wedi cael ei effeithio gan sawl tirlithriad sydd wedi golygu gwaith i adfer y llwybr ond mewn sawl lleoliad yn ardaloedd Nefyn, Criccieth a Thraeth Penllech does dim dewis pellach ond i negodi i wyro'r llwybr. Gyda thebygrwydd y gwelir rhagor o dirlithriadau rhaid cyfeirio adnoddau ac ymdrech mewn ymateb os am warchod y Llwybr Arfordir.

## Gwasanaeth Busnes, Prosiectau a Rhaglenni

Mae'r gwasanaethau yma yn cefnogi gwasanaethau eraill yr Adran i gyflawni eu pwrpas ac mae'r gwaith yn cynnwys rheoli contractau, cyllid ac incwm; denu grantiau a chyflawni prosiectau; rheoli datblygiad a gweithrediad effeithiol systemau technoleg gwybodaeth; integreiddio darpariaeth tendro a chaffael, pridiannau tir a darparu gwasanaeth cefnogol a gweinyddol i'r gwahanol wasanaethau.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn paratoi, gweithredu, a rheoli nifer fawr o gontractau'r Adran; monitro cynnydd a pherfformiad darparwyr a chontractwyr yn nhermau cytundebau, contractau a chyllid y gwasanaethau; dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a pharatoi a chyflwyno papurau gwaith yn ymwneud ag arbedion, newidiadau i'r sefydliad staffio a ffioedd a phrisiau.

Mae angen i ni reoli datblygiad a gweithrediad systemau technoleg gwybodaeth, dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r holl wasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar draws yr Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a fydd yn arwain at arferion gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.

Yn 2022/23 bydd y gwasanaeth busnes, prosiectau a rhaglenni yn:

- Trosglwyddo i system ddigidol genedlaethol ar gyfer Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ar gyfer chwiliadau .
- Ceisio denu grantiau ar gyfer cynlluniau gwelliant ar ein rhwydwaith ffyrdd, llwybrau a'r rhwydwaith 'teithio llesol' aml-ddefnydd, gwella cysylltedd arfordirol, a chynnal astudiaethau ecosystemau Cymru.

## Rheolaeth Categori Corfforaethol

Mae'r gwasanaeth yma'n cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir drwy ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o'r farchnad, cynhyrchion, cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu cynlluniau categori strategol trawsadrannol. Mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol wrth wneud eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad leol a chydweithio â Busnes Cymru sy'n darparu Cyngor a chefnogaeth i baratoi cynigion. Maent hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr y Cyngor i'w hannog nhw i gynyddu eu gwariant lleol o fewn eu cadwyni cyflenwi.

Yn ystod 2022/23, bydd y gwasanaeth yma'n parhau i flaenoriaethu Gwerth Gorau am Arian a Chadw'r Budd yn Lleol wrth i'r Cyngor gaffael nwyddau a gwasanaethau. Ond yn ogystal, byddwn yn edrych ar sut bydd modd i ni leihau effaith ein gweithgareddau caffael ar yr amgylchedd ac ar ein hallyriadau carbon, sydd yn cyd-fynd a'r gwaith sydd wedi'i nodi o dan Blaenoriaeth Gwella 8 ar ein Cynllun Ymateb i Newid Hinsawdd.



Mae’r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.